



Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

2.45 y.h., DYDD GWENER, 20FED MEDI, 2019

Lleoliad

Ystafell Gwyrfai - Pencadlys Caernarfon

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 12 Medi 2019)

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Dafydd Owen

Edgar Wyn Owen

Elfed Williams (Cadeirydd)

Aelod wrth gefn – i'w gadarnhau

Aelodau Lleol

Yr Hwb – Y Bala - Y Cynghorydd Dilwyn Morgan

Yr Hen Gwrt, Caernarfon – Cynghorwyr Roy Owen a Cai Larsen

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

5 - 7

YR HWB, YSGUBOR ISAF, LON Y CARIADON, Y BALA

I ystyried y cais uchod

5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

8 - 11

YR HEN GWRT, CAERNARFON

I ystyried y cais uchod

TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:

- 1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2) Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

Eitem 4

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	20 MEDI 2019
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - YR HWB, BALA
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Yr Hwb, Ysgubor Isaf, Lon Cariadon, Y Bala LL23 7NW gan Zoe Rachel Hansford Smith. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer adeilad caffi sydd yn cynnwys gardd/ardal eistedd tu allan , canolfan gweithgareddau awyr Agored ; ardal chwarae 'soft play' a chanolfan ddigwyddiadau.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol ar yr eiddo; dangos ffilmiau, a dramâu ; cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformiadau dawns a gwerthiant alcohol .
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Fe fu i'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd a'r Heddlu wneud sylwadau ar y cais; ac fe gafwyd cytundeb gan yr ymgeisydd parthed yr argymhellion an wnaethpwyd.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG	TRWYDDED ARFAETHEDIG
Oriau Agor / Opening Hours:	Dydd Llun/Mon 08:00-23:30 Dydd Mawrth/Tue 08:00-23:30 Dydd Mercher/Wed 08:00-23:30 Dydd Iau/Thu 08:00-23:30 Dydd Gwener/Fri 08:00-02:00 Dydd Sadwrn/Sat 08:00-02:00 Dydd Sul/Sun 08:00-23:30
Dramau/Plays Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-22:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-22:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-22:00 Dydd Iau/Thu 09:00-22:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-23:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-23:00 Dydd Sul/Sun 09:00-22:00
Ffilmiau/Films Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-22:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-22:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-22:00 Dydd Iau/Thu 09:00-22:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-23:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-23:00 Dydd Sul/Sun 09:00-22:00
Cerddoriaeth Fyw Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-23:00

	Dydd Iau/Thu 09:00-23:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-01:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-01:00 Dydd Sul/Sun 09:00-23:00
Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-23:00 Dydd Iau/Thu 09:00-23:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-01:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-01:00 Dydd Sul/Sun 09:00-23:00
Perfformiadau Dawns/ Performances of Dance – Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-22:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-22:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-22:00 Dydd Iau/Thu 09:00-22:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-23:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-23:00 Dydd Sul/Sun 09:00-22:00
Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol Ar yr Eiddo/On the Premises	Dydd Llun/Mon 11:00-23:00 Dydd Mawrth/Tue 11:00-23:00 Dydd Mercher/Wed 11:00-23:00 Dydd Iau/Thu 11:00-23:00 Dydd Gwener/Fri 11:00-01:30 Dydd Sadwrn/Sat 11:00-01:30 Dydd Sul/Sun 11:00-23:00

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff er sicrhau cydymffurfiaid gyda'r amcanion trwyddedu
- Sicrhau atal gwerthiant a defnydd cyffuriau anghyfreithlon
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Cynnal goleuadau tu allan er mwyn sicrhau diogelwch cwsmeriaid hwyr yn y nos.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau - ac amodau
Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd	Sylwadau - ac amodau

3.2 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru

Derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu yn dilyn sgwrs gyda'r ymgeisydd - a gytunodd i dderbyn yr amodau isod ar y drwydded -

Adran M (b) – Atal Trosedd ac Anhrefn

1. Bydd system TCC ddigidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio.
2. Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 28 diwrnod.
3. Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn.
4. Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.
5. Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.
6. Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr heddlu.

Adran M (e) – Amddiffyn Plant rhag niwed.

Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cadarnhau ei bod am weithredu cynllun Her 25

3.3 Sylwadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd

- 3.4 Fe yrrwyd llythyr at yr ymgeisydd yn datgan fod y swyddog o'r farn y byddai caniatáu adloniant tu allan i'r eiddo yn creu niwsans sŵn i drigolion lleol . Yn dilyn sgwrs ffôn hefo'r ymgeisydd, cadarnhawyd fod cyfaddawd wedi ei gytuno; a bod yr argymhelliad i leihau oriau'r holl adloniant rheoledig i 09:00 - 19:00 (dydd Llun - dydd Sul) y tu allan i'r adeilad wedi ei dderbyn.
- 3.5 Ar sail y cyfaddawd, mae'r swyddog yn cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r cais; ond fod argymhelliad fod yr amodau sŵn a fanylir yn y llythyr hefyd yn cael ei gynnwys ar y drwydded .
- 3.6 Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn y sylwadau a'r argymhellion a dderbyniwyd

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu a'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd; ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

Eitem 5

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	20 MEDI 2019
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - THE OLD COURTHOUSE, CASTLE DITCH, CAERNARFON
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Yr Hen Lys, Pen Deitch, Caernarfon gan Gwmni Courthouse Entertainments Ltd. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer adeilad yr Hen lysoedd , oddi fewn i waliau hynafol Tre Caernarfon; ac mae wedi ei restru fel adeilad Gradd 1. Nodir fod yr eiddo yn wynebu'r castell, ac wedi ei leoli mewn ardal nad yw'n cynnwys preswylfeydd.
- 1.2 Noder yn y cais fod defnydd cymysg i'r adeilad; gyda'r elfennau masnachol ar y lloriau gwaelod ac elfennau preswyl ar y llawr 1af a'r 2il. Mae dau adeilad cyhoeddus ar y llawr gwaelod, Theatr y Llys ac ystafell de/bar & bistro a adnabyddir fel 'The Bench' yn ogystal â bloc toiledau
- 1.3 Mae dwy stafell gyhoeddus hefyd ar y llawr gwaelod isaf gyda thoiledau, ystafell fwyta, ystafell ymarfer (rehearsal) ac ystafell wisgo artistiaid. Fe leolir canolfan Treftadaeth yn y celloedd. Bwriedir ceisio am drwydded dodrefn stryd hefyd i ganiatáu cwsmeriaid i yfed alcohol ar fyrddau a chadeiriau o flaen yr adeilad .
- 1.4 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol oddi ar ac ar yr eiddo; dangos ffilmiau, a dramâu ; cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, unrhyw adloniant arall, lluniaeth hwyr y nos a gwerthiant alcohol .
- 1.5 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.6 Fe fu i'r gwasanaeth Tân a'r Heddlu wneud sylwadau ar y cais; ac yn dilyn cyfarfod safle fe fu i'r Gwasanaeth Tân dynnu yn ôl sylwadau a wnaethpwyd ar y cais yn wreiddiol. Mae'r ymgeisydd wedi cytuno i ofynion yr Heddlu; ac mae'r cais wedi ei ganiatáu yn ddarostyngedig i gytundeb yr Is - Pwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG	TRWYDDED ARFAETHEDIG
Oriau Agor / Opening Hours:	Dydd Llun/Monday 08:00-23:30 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-23:30 Dydd Mercher/Wednesday 08:00-23:30 Dydd Iau/Thursday 08:00-00:30 Dydd Gwener/Friday 08:00-00:30 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-00:30 Dydd Sul/Sunday 09:00-23:00
Dramau/Plays Dan do/Indoors	Dydd Llun/Monday 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 09:00-23:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-23:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-22:30

Ffilmiau/Films Dan do/indoors	Dydd Llun/Monday 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 09:00-23:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-23:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-22:30
Cerddoriaeth Fyw Dan do/ Indoors	Dydd Llun/Monday 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-22:30
Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music - Dan Do/Indoors	Dydd Llun/Monday 08:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 08:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 08:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 08:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 09:00-22:30
Perfformiadau Dawns/ Performances of Dance – Dan Do/ Indoors	Dydd Llun/Monday 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-22:30
Adloniant arall/ Other Entertainment – Dan Do/Indoors	Dydd Llun/Monday 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 09:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 09:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 09:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 10:00-22:30
Lluniaeth Hwyr y Nos/ Late Night Refreshments - Dan do/indoors	Dydd Iau/Thursday 23:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 23:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-00:00
Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises	Dydd Llun/Monday 08:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 08:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 08:00-00:00 Dydd Gwener/Friday 08:00-00:00 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-00:00 Dydd Sul/Sunday 08:00-22:30

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff ar ofynion y drwydded a phwysigrwydd sicrhau nad oes gwerthiant alcohol i rai o dan 18 neu gwsmeriaid sydd wedi gor- yfed
- Nifer digonol o staff i archwilio'r manau perthnasol i sicrhau atal gwerthiant a defnydd cyffuriau anghyfreithlon
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Allanfeydd Tân yn cael ei marcio yn amlwg a hyfforddiant i staff ar drefn gwagio adeilad
- Pob un rheolwr ar ddyletswydd i fod yn meddu ar drwydded bersonol.
- Cyfyngu niferoedd drwy system archebu lle ymlaen llawn ar gyfer digwyddiadau adloniant
- Arwyddion yn gofyn i westeion adael yn ddistaw
- Plant o dan 16 i fod yng nghwmni oedolion cyfrifol

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Gwasanaeth Tân ac Achub	Sylwadau a gyflwynwyd ac a dynnwyd yn ôl yn ddiweddarach
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau - ac amodau

3.2 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru

Derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu yn dilyn ymweliad a'r safle a chyfarfod gyda'r ymgeisydd - a gytunodd i dderbyn yr amodau isod ar y drwydded -

Adran M (b) – Atal Trosedd ac Anhrefn

1. Bydd system TCC ddigidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio.
2. Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 28 diwrnod.
3. Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn.
4. Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.
5. Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn manau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.

6. Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr heddlu.

Yn Adran M (b) o'r cais mae'r ymgeisydd yn datgan 'Licensed door supervisors on duty for all events'. Mae'r Heddlu o'r farn nad oes angen goruchwylwyr drysau ar gyfer pob digwyddiad oherwydd natur y digwyddiadau fydd yn cael eu cynnal yn yr adeilad. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd asesu digwyddiadau unigol cyn penderfynu os oes angen goruchwylwyr drysau felly byddai'r amod canlynol yn dderbyniol:-

'Each event will be risk assessed to establish whether door supervisors are required'

Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cadarnhau ei bod am weithredu cynllun Her 25 ac nid Her 21 yn **Adran M (e) – Amddiffyn Plant rhag niwed.**

3.3 Sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub

- 3.4 Fe dderbyniwyd ymateb gan y gwasanaeth yn wreiddiol ar y 16 o Awst yn datgan nad oedd yr eiddo yn cydymffurfio o ran rhagofalon tan ; yn benodol gan fod y llwybr dianc mewn argyfwng yng nghefn yr adeilad yn arwain at giât wedi ei gloi tu ôl i adeiladau Pencadlys y Cyngor. Yn dilyn archwiliad safle gyda 'r ymgeisydd a swyddog stadau'r cyngor ar y 21 o Awst; fe dderbyniwyd cadarnhad fod y Gwasanaeth Tân yn tynnu eu gwrthwynebiad i'r cais yn ol. Fe gafwyd cytundeb gan y swyddog stadau i wneud newidiadau i banel ffens fel ei fod yn gallu cael ei agor yn hawdd heb ddefnydd goriad. - er mwyn sicrhau llwybr dianc clir mewn argyfwng tan.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu a'r gwasanaeth Tân; ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.